# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **4 Mehefin, 2018** |
| **Pwnc:** | **Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | **Y diweddaraf am gynnydd ar waith y Panel Sgriwtini Cyllid** |
| **Cadeirydd Sgriwtini:** | **Cyng Aled Morris Jones** |
| **Aelod (au) Portffolio:** | **Cyng John Griffith (hyd at 15/05/18) / Cyng Robin Wyn Williams (o 16/05/18)** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau / Swyddog Adain 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini<br>01248 752578<br>AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Ddim yn berthnasol** |

| **1 - Argymhelliad / Argymhellion** |
|---|
| **A1** Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol nodi:<br>• Y cynnydd a wnaed hyd yn hyn â gwaith y Panel Sgriwtini Cyllid, yn nhermau cyflawni ar y rhaglen waith a hefyd wrth fesur effaith a gwerth ychwanegol<br>• Ymddengys fod y prosesau hynny yn ymwneud â monitro'r gyllideb ar gyfer 2017/18 yn addas i'r pwrpas ac ar y trywydd iawn<br>• Y rhaglen ddatblygu sgriwtini ariannol parhaus ar gyfer aelodau'r Panel sy'n cael ei chyflwyno gan CIPFA Cymru<br>**A2** Uchafu'r mater canlynol ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:<br>• Parhau i fynegi pryder ynglŷn â'r pwysau ariannol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Hefyd, nodi bod y Panel yn parhau i fonitro'r sefyllfa'n agos a bod trefniadau mewn lle i gynnal trafodaeth reolaidd efo'r Prif Weithredwr Cynorthwyol a'r Penaethiaid Gwasanaeth i ddarparu esboniad o'r sefyllfa ariannol yn y ddau wasanaeth ac effaith y mesurau lliniaru y rhoddwyd ar waith i reoli gorwariant. Bydd y Panel yn parhau i adrodd yn ôl i'r Pwyllgor hwn ar ei ganfyddiadau fel mae'r sefyllfa'n esblygu. |

| **2 - Cyswllt â Chynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill** |
|---|
| Cysylltiad uniongyrchol rhwng Cynllun y Cyngor / blaenoriaethau trawsnewid a'r Cynllun Ariannol ar gyfer y Tymor Canol. Bydd y sylw a rydd y Panel i faterion cyllidebol yn rhoi sicrwydd i'r Pwyllgor Gwaith bod y Cyngor yn ymateb yn gadarn ar faterion ariannol a bod camau ar waith i liniaru unrhyw risgiau. |

| 3 - Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Aelodau Sgriwtini |
|---|
| **I gynorthwyo Aelodau pan fyddant yn craffu'r pwnc: -**<br><br>**3.1** Effaith a gaiff y mater ar unigolion a chymunedau **[canolbwyntio ar y cwsmer / dinesydd]**<br><br>**3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – o safbwynt ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**<br><br>**3.3** Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**<br>**3.4** Sgriwtini yn cymryd arno rôl monitro perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**<br><br>**3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:<br>• Y tymor hir<br>• Atal<br>• Integreiddio<br>• Cydweithio<br>• Cynnwys<br>**[ffocws ar les]** |

| 4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol |
|---|
| Ar gais y Panel:<br><br>1. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar flaenoriaeth y ffrydiau gwaith yn rhaglen waith y Panel?<br>2. A yw gweithredoedd y Panel hyd yma yn ddigon cadarn?<br><br>3. A oes gan y Pwyllgor unrhyw farn ar gyflymder neu ansawdd y datblygiadau craffu cyllidol diweddar dan arweiniad y Panel? |

| 5 - Cefndir / Cyd-destun |
|---|
| **1.1 CEFNDIR**<br>1.1.1 Bydd yr Aelodau eisoes yn ymwybodol bod y swyddogaeth sgriwtini wedi datblygu dros y misoedd diwethaf trwy waith 3 phanel sgriwtini sef – Panel Sgriwtini Cyllid, Panel Sgriwtini Adolygu Ysgolion a'r Panel Gwella Gwasanaethau Plant. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r cynnydd a wnaed hyd yn hyn o ran y **Panel Sgriwtini Cyllid.**<br><br>1.2 **Trefniadau Llywodraethu'r Panel**<br>Fel yr adroddwyd i gyfarfod o'r Pwyllgor hwn yn flaenorol[1], sefydlwyd trefniadau llywodraethu cadarn i ategu gwaith y Panel a'r bwriad yw ceisio parhau i gynnull cyfarfodydd o'r Panel yn rheolaidd, yn unol ag amserlen y Pwyllgor Gwaith ar gyfer monitro'r gyllideb yn ogystal â phroses yr Awdurdod ar gyfer gosod y gyllideb. Mae proses wedi ei sefydlu i sicrhau y bydd adroddiadau rheolaidd, chwarterol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor hwn gan y Cynghorwyr Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams, fel cynrychiolwyr Pwyllgor Sgriwtini ar y Panel. Bydd |

[1] Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 31 Hydref, 2017

angen i'r Panel adolygu manylion y trefniant yma fodd bynnag yn sgîl penodiad diweddar y Cynghorydd Robin Williams yn Aelod Portffolio ar gyfer Adnoddau.

**2. FFOCWS GWAITH Y PANEL SGRIWTINI CYLLID**

2.1 Mae'r Panel Sgriwtini Cyllid wedi cyfarfod wyth gwaith hyd yn hyn, ar:

- 17 Awst, 2017
- 29 Medi, 2017
- 25 Hydref, 2017
- 1 Rhagfyr, 2017
- 5 Ionawr, 2018
- 2 Chwefror, 2018
- 14th March, 2018
- 26th April, 2018

2.2 Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar waith y Panel ym mis Mawrth ac Ebrill, 2018:

- **Materion llywodraethu** - mae trefniadau llywodraethu clir ar waith (gan gynnwys cylch gorchwyl) a rhaglen waith sy'n darparu fframwaith cadarn ar gyfer gwaith y Panel. Mae CIPFA Cymru hefyd o'r un farn. Mae yna ail edrych ar fanylion y trefniadau yma ar hyn o bryd fel rhan o adolygiad ehangach o'n gweithdrefnau a dogfennaeth Craffu.

- **Mewnbwn arbenigol allanol** - ar gais aelodau'r Panel, mae mewnbwn arbenigol allanol wedi'i hwyluso gan CIPFA Cymru dros 4 cyfarfod o'r Panel[2] er mwyn ein cynorthwyo i werthuso a dangos tystiolaeth o effaith a gwerth ychwanegol gwaith y Panel. Mae mewnbwn CIPFA Cymru ymhob cyfarfod hefyd wedi cynnwys sesiynau datblygu a mentora pwrpasol ar sgriwtini ariannol. Bydd CIPFA Cymru'n dychwelyd i'r Awdurdod ym mis Medi er mwyn cynorthwyo'r Panel i fesur y cynnydd a wnaed wrth ddatblygu craffu cyllidol gan Aelodau yn y Cyngor. Mae'r Panel hefyd wedi cytuno i rannu canlyniadau'r ffrwd waith hon er mwyn datblygu arfer dda ar lefel genedlaethol.

  Gwelwyd y mewnbwn allanol hwn i waith y Panel yn darparu sylfaen gadarn i alluogi a chefnogi datblygiad sgriwtini ariannol effeithiol yn yr Awdurdod, gan adeiladu gwydnwch i mewn i'n harferion a'n prosesau sgriwtini.

- **Sesiynau hyfforddi a datblygu / gwybodaeth –** mae'r sesiynau hyn wedi'u hymgorffori yn rhaglen waith y Panel ac fe'u cynhelir ar ddechrau pob cyfarfod o'r Panel. Mae'r pynciau a drafodwyd dros y misoedd diwethaf wedi cynnwys Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) – edrych ar y rheolau ariannol ynghlwm wrth y CRT ac agweddau ariannol y cynllun busnes. Ym mis Mawrth, rhoddodd y Panel sylw i gyllideb gyfalaf y Cyngor (egwyddorion, rhagdybiaethau, blaenoriaethau a'r broses).

- Ystyriaeth fanwl mewn perthynas â **Thema 1 - Monitro'r Gyllideb (Chwarter 3)** - gyda'r Panel yn mabwysiadu'r farn y dylai ei swyddogaeth ganolbwyntio ar graffu ar ymateb y Pwyllgor Gwaith i fonitro cyllideb (refeniw, cyfalaf a HRA[3]) (yn hytrach na

[2] Cyfarfodydd o'r Panel Sgriwtini Cyllid a gynhaliwyd ar 1 Rhagfyr, 2017; 5 Ionawr, 2018; 2 Chwefror, 2018; 14 Mawrth, 2018

[3] Cyfrif Refeniw Tai

chraffu cyn gwneud penderfyniad). Rhagwelwyd y gallai'r ymagwedd hon gefnogi'r Pwyllgor Gwaith i wneud penderfyniadau gwell.

Craffodd y Panel ymateb y Pwyllgor Gwaith i adroddiad CH3 ar berfformiad y gyllideb refeniw yn ei gyfarfod ar 14/03/18. Roedd yr Aelod Portffolio Adnoddau yn bresennol ar gyfer y drafodaeth hon er mwyn darparu gwybodaeth ychwanegol ac i ymateb i gwestiynau gan aelodau'r Panel.

- **Pwysau ariannol 2017/18** - mae craffu ar y pwysau ariannol yn y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu yn parhau i fod yn flaenoriaeth allweddol i'r Panel a gofynnwyd am wybodaeth bellach gan y Penaethiaid Gwasanaeth ar gyfer ei hystyried yng nghyfarfod nesaf y Panel[4]. Cyflwynir adroddiad ar ganlyniad y gwaith hwn i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol maes o law.

- Yn y cyfarfod diwethaf[5], rhoddodd y Panel ystyriaeth bellach i **Thema 3 – y broses flynyddol ar gyfer gosod y gyllideb** ar gyfer 2019/20. Roedd adolygiad o raglen waith y Panel yn sbardun i gytuno rôl y Panel yn y broses gosod cyllideb y flwyddyn nesaf:

    i. Cynrychiolydd y Panel i gymryd rhan yng nghyfarfodydd grŵp llywio gosod y gyllideb (cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf ar 30/04/18 i ystyried canlyniadau adolygiad diweddar o broses gosod cyllideb 2018/19)
    ii. Y Panel Sgriwtini Cyllid i edrych mewn manylder ar gynigion arbedion cychwynnol 2019/20 cyn y gweithdai Aelodau ar y gyllideb i'w cynnal yn fuan ym mis Hydref, 2018. Ffocws sgriwtini → craffu cyrraeddadwyedd, rhwystrau a risgiau. Y gwaith hyn i gynnwys trafodaethau gyda Phenaethiaid Gwasanaeth
    iii. Aelodau'r Panel i gyflwyno canfyddiadau eu gwaith craffu ar gynigion cychwynnol 2019/20 i'r gweithdai Aelodau ar y gyllideb.

- **Strategaeth Arbedion y Cyngor** – rhoddodd y Panel[6] ystyriaeth fanwl i berfformiad yn erbyn yr holl gynigion arbedion a wireddwyd arnynt yn ystod 2017/18, fesul gwasanaeth er mwyn:
    i. dod i farn ar ganran yr arbedion y gwireddwyd arnynt yn llawn
    ii. adnabod y rhwystrau a risgiau daeth i'r amlwg ym 2017/18 ac unrhyw ddysgu wrth symud ymlaen.

    Daeth y Panel i'r casgliad bod gweithrediad y strategaeth arbedion ar gyfer 2017/18 (cyfanswm £1.954k) £399k yn fyr o'r targed, sy'n cynrychioli 20.4% o'r cyfanswm arbedion. Roedd y diffyg hwn yn berthnasol i 3 chynllun penodol:
    - 2 brosiect (glanhau; Garreglwyd) i'w cyflawni yn hwyrach nag a ragwelwyd gan wireddu'n llawn ar yr arbedion yn ystod 2018/19
    - Roedd y trydydd yn ymwneud â gwariant ychwanegol heb ei gynllunio o ganlyniad i lifogydd diweddar.

---

[4] Cynhelir cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid ar 28 Mehefin, 2018
[5] Panel Sgriwtini Cyllid yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill, 2018
[6] Cyfarfod o'r Panel Sgriwtini Cyllid ar 26 Ebrill, 2018

Mewn perthynas â 2018/19 a thu hwnt, ymddengys fod yna risgiau ynghlwm wrth ddibynnu ar strategaethau creu incwm fel dull o greu arbedion.

- **Rhaglen waith ac effaith sgriwtini** - mae'r Panel wedi cyflwyno hunan-arfarniad rheolaidd o berfformiad ar ddiwedd pob cyfarfod, wedi'i hwyluso gan CIPFA Cymru. Mae arwyddion cynnar yn awgrymu bod yr arfer hon yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd ac effeithiolrwydd craffu ariannol gan y Panel. Fel canlyniad cyntaf, mae'r Panel wedi cydnabod yr angen i sicrhau gwell cydlyniant rhwng cylchoedd cyllidebol y Cyngor a blaen raglen waith y Panel. Mae'r aliniad yma bellach yn sail i raglen waith y Panel.

**3. MESUR CANLYNIADAU AC EFFAITH Y PANEL**

3.1 **Cyd-destun**

Mae sefydlu ac asesu effaith Sgriwtini yn heriol oherwydd nid yw canlyniadau gweithgareddau sgriwtini bob amser yn weladwy ac yn aml nid oes modd eu mesur mewn modd systematig. Hefyd, nid yw'n hawdd mesur gallu Sgriwtini i ddylanwadu ar y sawl sy'n gwneud penderfyniadau drwy drafodaeth a dadl. Fodd bynnag, mae siwrnai'r Panel Sgriwtini Cyllid yn enghraifft ble mae mewnbwn sgriwtini wedi ychwanegu gwerth ac wedi dylanwadu ar y modd y mae cynigion wedi cael eu gweithredu gan y Cyngor.

3.2 **Panel Sgriwtini Cyllid**

Mae craffu ariannol wedi datblygu'n sylweddol o waelodlin isel yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda mewnbwn ac arweiniad allanol arbenigol gan CIPFA Cymru. Mae'r Panel wedi mabwysiadu ymagwedd strategol tuag at graffu materion ariannol ac wedi datblygu strategaeth gwestiynu effeithiol fel sylfaen i'w gwaith. Er enghraifft, mae ymyriadau gan y Panel mewn ymateb i rai pwysau cyllidebol sylweddol wedi sbarduno rhai mesurau lliniaru cadarnhaol gan y Gwasanaethau Plant a'r Gwasanaeth Dysgu. Mae CIPFA Cymru wedi canmol y daith ddatblygu hon:

*"Yn ystod yr amser y buom yn gweithio gyda'r Panel, bu newid amlwg yn y modd y mae'r Panel yn gweithredu. Bellach mae gan Aelodau a'r swyddogion sy'n bresennol eglurder ynghylch eu rôl. Mae hyn wedi arwain at ddefnydd effeithiol o amser, mae strwythur gwell i'r rhaglen, mae'n cael ei rheoli yn well ac mae'r cwestiynau'n fwy treiddgar. Mae'r aelodau'n ystyried materion o sylfaen ariannol wybodus ac ehangach ac mae hynny'n amlwg o ansawdd a natur y cwestiynau a ofynnir. Mae'r cwestiynau a ofynnir ganddynt a'u hymagwedd yn dangos cynnydd yn eu hyder ynghyd â gwydnwch a phenderfyniad i gael ymatebion boddhaol mewn ffordd gytbwys a phenodol. Bydd datblygu blaen raglen waith a fydd yn cynnwys eitemau o'r calendr ariannol, materion sy'n esblygu a rhaglen o bynciau yn golygu y bydd y Panel yn ychwanegu gwerth gwirioneddol i'r broses sgriwtini dros amser. Mae bod â meddwl annibynnol a bod yn rhagweithiol o ran datblygu'r rhaglen waith yn ddatblygiad pwysig i'r Panel".*

Mae'r gwaith yma wedi darparu sylfaen gadarn wrth symud ymlaen gyda'n rhaglen ddatblygu.

**4. MATERION I'W UCHAFU AR GYFER EU TRAFOD GAN Y RHIANT BWYLLGOR**

Uchafu'r mater canlynol ar gyfer ei ystyried gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol:

4.1 Y pwysau cyllidebol cyfredol yn y gwasanaethau plant a'r gwasanaeth dysgu. Gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol ddod i farn ynghylch cadernid gweithredoedd y Panel hyd yn hyn.

**6 - Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb** **[gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]**

Amherthnasol

**7 - Goblygiadau Ariannol**

Mae'r adroddiad hwn yn trafod yr elfennau canlynol o waith y Panel Sgriwtini Cyllid:

i. Monitro perfformiad cyllideb refeniw 2017/18
ii. Y broses o osod cyllideb ar gyfer 2019/20
iii. Trefniadau llywodraethu a ffocws sgriwtini wrth baratoi ar gyfer proses gosod cyllideb 2019/20
iv. Mesur canlyniadau ac effaith

**8 - Atodiadau:**

**9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini, Cyngor Sir Ynys Môn, Swyddfeydd y Cyngor, Llangefni. LL77 7HF

**Cyng Dafydd Roberts a Robin Wyn Williams**
**Aelodau Sgriwtini ar y Panel Sgriwtini Cyllid**
**Dyddiad: 23/05/18**